



Annwyl ymgynghorai

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a Defra ar ganllawiau wedi'u diweddarau ar ddyletswydd aelwydydd i ofalu am wastraff, a chanllawiau newydd i'r awdurdodau lleol yn Lloegr ar roi hysbysiadau cosb benodedig

Rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn am eich barn ynghylch canllawiau wedi'u diweddarau i helpu aelwydydd i fodloni'u dyletswydd gofal yn unol â'r Cod Ymarfer Gwastraff: Dyletswydd Gofal, a chanllawiau newydd ar roi hysbysiad cosb benodedig mewn perthynas â'r ddyletswydd gofal yn Lloegr.

Yn 2018, cynhaliodd Llywodraeth Cymru a Defra ymgynghoriad ar gynigion i fynd i'r afael â throsteddu a pherfformiad gwael yn y sector gwastraff a chyflwyno hysbysiad cosb benodedig newydd mewn cysylltiad â dyletswydd aelwydydd i ofalu am eu gwastraff.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd cyn y gwneir penderfyniad terfynol. Os penderfynir cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig fel ymateb mwy cymesur i dorri'r ddyletswydd gofal hon, byddwn yn cynnig cyhoeddi canllawiau anstatudol i awdurdodau lleol ar roi hysbysiadau cosb benodedig, a diweddarau canllawiau presennol y cod ymarfer i roi mwy o fanylion i aelwydydd ynghylch sut i fodloni'u dyletswydd gofal o ran gwastraff.

Mae'r ymgynghoriad hwn a'r disgrifiadau o'r gyfraith yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig. Mae'r Cod Ymarfer yn rhan A: Canllawiau i Aelwydydd, yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae'r canllawiau yn rhan B: Canllawiau i Awdurdodau Lleol, yn berthnasol i awdurdodau yn Lloegr yn unig. Fodd bynnag, bydd y canllawiau i Gymru ar ffurf debyg ac er y bydd system wahanol ar gyfer casglu sylwadau yng Nghymru, bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn hefyd yn cyfrannu at lunio'r canllawiau.

Bydd yr ymgynghoriad yn para am 8 wythnos rhwng 3 Gorffennaf a 27 Awst 2018.

Mae'r dogfennau a ganlyn i'w gweld yn Citizen Space sy'n adnodd ymgynghori ar-lein yn : <https://consult.defra.gov.uk/waste/consultation-household-waste-duty-of-care>

- Dogfen Ymgynghori
- Cod Ymarfer Gwastraff: Dyletswydd Gofal, wedi'i ddiweddarau
- Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar ddefnyddio'r hysbysiad cosb benodedig newydd
- Templed Ymateb (dewis arall ar gyfer ymateb i'r holiadur, yn lle defnyddio Citizen Space)

Rydym yn croesawu'ch barn a'ch sylwadau ar y cynigion. I gyflwyno'ch ymateb i'r ymgynghoriad, llenwch yr holiadur yn Citizen Space (gweler y ddolen uchod) erbyn 23.59pm, 27 Awst 2018. Croesewir ymatebion yn Gymraeg.

Er y byddai'n well gennym gael ymatebion drwy Citizen Space, mae croeso ichi anfon eich ymatebion hefyd:

drwy anfon e-bost at:
Wastecrime.Consultation@defra.gsi.gov.uk

neu ysgrifennu at:
Waste Regulation and Crime
Defra
Ground Floor, Seacole Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

drwy anfon e-bost at: EQR@llyw.cymru
neu ysgrifennu at:
Cangen Ansawdd a Rheoleiddio'r
Amgylchedd, Is-Adran yr Amgylchedd a
Chymunedau
Yr Adran Adnoddau Naturiol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Os hoffech gael copi o'r ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at
Wastecrime.Consultation@defra.gsi.gov.uk

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r Egwyddorion Ymgynghori y gellir eu gweld yn
www.cabinetoffice.gov.uk/resource-library/consultation-principles-guidance

Cyfrinachedd a diogelu data

Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar wefan Llywodraeth Cymru:
www.gov.uk/defra a www.llyw.cymru. Bydd atodiad i'r crynodeb yn rhestru'r holl ymatebwyr **ond ni fydd yn cynnwys** enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Efallai y bydd Defra yn cyhoeddi'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn er mwyn i'r cyhoedd allu ei weld, ond ni fydd eich enw na'ch manylion cyswllt (ee cyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost, ac ati) yn ymddangos.

Os byddwch yn ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech gadw unrhyw ran o'ch ymateb yn gyfrinachol, rhaid ichi nodi'n glir at ba wybodaeth yr ydych yn cyfeirio. Rhaid ichi hefyd esbonio'ch rhesymau am ofyn am gyfrinachedd. Y rheswm dros hyn yw y gall unrhyw wybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei rhyddhau i'r cyhoedd neu bartion eraill yn unol â'r gyfraith ar fynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf: Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018). Mae gennym rwymedigaethau, o dan y cyfreithiau hyn yn bennaf, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynwyr penodol neu i'r cyhoedd o dan amgylchiadau penodol. O ystyried hyn, byddai esbonio'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd ar gyfer eich holl ymateb neu ran ohono yn ein helpu i gael cydbwysedd rhwng ein dyletswydd i ddatgelu gwybodaeth a'n dyletswydd i'w chadw'n gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais am yr wybodaeth a roddwyd gennych yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried eich rhesymau dros ofyn inni gadw'ch ymateb yn gyfrinachol, ond ni allwn warantu y bydd moddi inni gadw'ch ymateb yn gyfrinachol ar bob achlysur.

Os byddwch yn ymateb yn negyddol i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech gadw unrhyw ran o'ch ymateb yn gyfrinachol, cawn ryddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd, ond ni fyddwn yn cyhoeddi'ch enw na'ch manylion cyswllt.

Weithiau, efallai y bydd Defra yn rhannu'r wybodaeth a roddwch mewn ymateb i'r ymgynghoriad â dadansoddwyr allanol, gan gynnwys data personol. Mae hyn at ddibenion dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad a darparu crynodeb o ymatebion yn unig.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet a nodir yn: <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch hwy at: Consultation Coordinator, Area 1C, 1st Floor, Nobel House, 17 Smith Square, London SW1P 3JR, neu e-bostiwch consultation.coordinator@defra.gsi.gov.uk.

Diolch am ein helpu yn y mater hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni (gweler uchod).

Yn gywir

Tîm Rheoliadau Gwastraff a Throseddau,
**Adran yr Amgylchedd, Bwyd a
Materion Gwledig**

Cangen Ansawdd a Rheoleiddio'r
Amgylchedd
Yr Adran Adnoddau Naturiol
Llywodraeth Cymru